OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 813 (Cy.93)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mawrth 2002*
Yn dod i rym - -	*22 Mawrth 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 93 a 94(1)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 93(2) o'r Ddeddf honno, a rhoi sylw i'r materion a bennir yn adran 93(6) o'r Ddeddf honno, fel sy'n ofynnol o dan adran 93(5) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 22 Mawrth 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 1997

2.—(1) Diwygir Atodlen 2 (rhwymedigaethau adennill ac ailgylchu) i Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 1997(**3**) fel a ganlyn—

(2) ym mharagraff 4, yn lle "and (c) for any subsequent year, 56%.", rhodder "(c) for the year 2001, 56%; and (d) for any subsequent year, 59%.".

(3) ym mharagraff 5, yn lle "and (c) for any subsequent year, 18%.", rhodder "(c) for the year 2001, 18%; and (d) for any subsequent year, 19%.".

(**1**) 1995 p. 25; gweler adran 93(8) i gael y diffiniadau o "*prescribed*" a "*regulations*".
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1997/648, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1361, O.S. 1999/3447 ac O.S. 2000/3375.